# HYFFORDDIANT CÔD YMDDYGIAD AR GYFER CYNGHORWYR TREF A CHYMUNED

# 2024

# CODE OF CONDUCT TRAINING FOR TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS

# 2024

# RHAGLEN
# PROGRAMME

- Cyflwyniad
- Y Pwyllgor Safonau
- Pryd mae'r Côd yn gymwys
- Y Côd a'r Cyfryngau Cymdeithasol
- Dyletswyddau Cyffredinol
- Buddiannau Personol
- Buddiannau Rhagfarnol
- Buddiannau Eithriedig
- Gollyngiadau
- Gorfodaeth
- Deddfwriaeth ac Achosion Diweddar
- Ble gallwch gael cyngor
- Casgliad
- Cwestiynau

- Introduction
- Standards Committee
- When the Code Applies
- The Code and Social Media
- General Duties
- Personal Interests
- Prejudicial Interests
- Exempt Interests
- Dispensations
- Enforcement
- Recent Cases & Legislation
- Where to seek advice
- Conclusion
- Questions

# CYFLWYNIAD
# INTRODUCTION

Mae'r Côd yn seiliedig ar Egwyddorion Nolan ar gyfer ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus

Mae'n rhaid i bob Cyngor fabwysiadu ei gôd ei hun yn seiliedig ar fodel Llywodraeth Cymru. Diwygiwyd ddiwethaf – haf 2016

Canllawiau'r Ombwdsmon wedi'u diweddaru Hydref 2022.

Canllawiau penodol wedi'u cyhoeddi ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned

Code based upon the Nolan Principles for conduct in public life

Each Council must adopt its own code based on the WG model. Last revised – summer 2016

Ombudsman's Guidance updated October 2022.

Specific guidance issued for Town and Community Councils

# Y PWYLLGOR SAFONAU - CYFANSODDIAD
# STANDARDS COMMITTEE - COMPOSITION

- **9 aelod.**
- **3 Chynghorydd Sir,**
- **1 Cynghorydd Cymuned a**
- **5 aelod annibynnol cyfetholedig**

- **9 members.**
- **3 County Councillors,**
- **1 Community Councillor and**
- **5 co-opted independent members**

# Y PWYLLGOR SAFONAU – RÔL
# STANDARDS COMMITTEE - ROLE

Hyrwyddo safonau ymddygiad uchel gan Gynghorwyr

Cynorthwyo Cynghorwyr i gadw at y Côd

Monitro gweithrediad y Côd

Rhoi cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio'r Côd

Trefnu Hyfforddiant y Côd

Rhoi gollyngiadau

Promote high standards of conduct by Cllrs

Assist Cllrs to observe the Code

Monitor the operation of the Code

Advise on the adoption or revision of the Code

Arrange Code Training

Grant dispensations

## Y PWYLLGOR SAFONAU – CASGLU DATA'R CÔD
## STANDARDS COMMITTEE – CODE DATA GATHERING

- Ymarfer casglu data blynyddol sy'n chwilio am ddata ar ddatganiadau o fuddiant a hyfforddiant y côd
- Darparu tystiolaeth o lefel y gydymffurfiaeth â'r côd
- Helpu i lywio rhaglen waith y pwyllgor

- Annual data gathering exercise seeking data on declarations of interest and code training
- Provides evidence of the level of code compliance
- Helps inform the committee's work programme

# PRYD MAE'R CÔD YN GYMWYS
# WHEN THE CODE APPLIES

# PRYD MAE'R CÔD YN GYMWYS
# WHEN THE CODE APPLIES

**Mewn unrhyw gyfarfod swyddogol o’r cyngor**

**Mewn unrhyw gyfarfod gydag aelodau neu swyddogion**

**Wrth weithredu fel Cynrychiolydd y Cyngor neu ymddangos eich bod yn gwneud hynny**

**Wrth ymgymryd â busnes y Cyngor**

**Wrth weithredu mewn unrhyw rôl swyddogol arall**

**Wrth gynrychioli'r Cyngor ar gorff arall**

**AC ……**

**In any official council meeting**

**In any meeting with members or officers**

**When acting as a Council rep or appearing to do so**

**If conducting Council business**

**If acting in any other official role**

**If a Council rep on another body**

**AND ……**

# PRYD MAE'R CÔD YN GYMWYS
# WHEN THE CODE APPLIES

**UNRHYW BRYD OS YW'R CANLYNOL YN BERTHNASOL:**

- Os yw eich ymddygiad yn debygol o ddwyn anfri ar eich swyddfa neu'r Cyngor
- Os ydych yn defnyddio eich swydd i ennill mantais i chi eich hun neu rywun arall
- Os ydych yn camddefnyddio adnoddau'r Cyngor

**COFIWCH – mae'r Côd yr un mor berthnasol i gyfarfodydd o bell ag i rai wyneb yn wyneb**

**AT ANY TIME IF:**

- Your conduct is likely to bring your office or the Council into disrepute
- You use your position to gain an advantage for yourself or another
- You misuse Council resources

**REMEMBER – the Code applies just as much to remote meetings as to physical ones**

# Y Côd a'r Cyfryngau Cymdeithasol
# The Code and Social Media

- Bydd y côd felly'n berthnasol wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol
- Cadwch wahaniaeth clir rhwng postiadau personol a gwleidyddol
- Peidiwch â phostio'r hyn na fyddech yn ei ddweud yn wyneb rhywun
- Peidiwch ag yfed a thrydar !

- The code will therefore apply when using social media
- Clearly distinguish between personal and political posts
- Don’t post what you would not say to someone’s face
- Don’t drink and tweet !

# DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL
# GENERAL DUTIES

**Cynghorwyr yn ymddiheuro i staff am gynnig 'defod baganaidd'**

**Councillors apologise to staff over 'pagan ritual' offer**

Dirprwy Arweinydd Cyngor yng Nghymru yn ymddiswyddo dan gwmwl oherwydd y gair 'N'

Welsh N-word council deputy resigns in disgrace

**Ymchwilio i Gynghorydd oherwydd neges e-bost dramgwyddus**

**Councillor investigated for 'offensive' email**

Gwrandawiad naw awr ynghylch cynghorydd oedd wedi 'bod yn bigitian yn gas ar y cyrion'

Nine-hour hearing over councillor who 'bitched from the sidelines'

# DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL – RHAID ICHI
# GENERAL DUTIES – YOU MUST

- **Hyrwyddo Cydraddoldeb**
- **Dangos parch ac ystyriaeth i eraill**
- **Peidio â bwlio neu aflonyddu ar eraill**
- **Peidio â pheryglu diffyg tuedd y swyddogion**
- **Peidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol**
- **Peidio ag atal mynediad at wybodaeth**
- **Peidio â dwyn anfri ar eich swyddfa neu'ch cyngor**

- **Promote Equality**
- **Show respect & consideration to others**
- **Not harass or bully others**
- **Not compromise your officers impartiality**
- **Not disclose confidential information**
- **Not prevent access to information**
- **Not bring your office or council into disrepute**

# DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL – RHAID ICHI
# GENERAL DUTIES – YOU MUST

- **Rhoi gwybod am achosion o dorri'r côd**
- **Peidio â gwneud cwynion blinderus**
- **Cydweithio ag ymchwiliadau**
- **Peidio â defnyddio eich swydd yn amhriodol**
- **Peidio â chamddefnyddio adnoddau'r Cyngor**
- **Gwneud penderfyniadau yn wrthrychol**
- **Ystyried cyngor a rhoi rhesymau dros beidio â'i ddilyn**

- **Report code breaches**
- **Not make vexatious complaints**
- **Cooperate with investigations**
- **Not use your position improperly**
- **Not misuse Council resources**
- **Reach decisions objectively**
- **Consider advice and give reasons for not following it**

# DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL – RHAID ICHI
# GENERAL DUTIES – YOU MUST

- **Cydymffurfio â rheolau ynghylch treuliau**
- **Peidio â derbyn anrhegion neu letygarwch sy'n eich rhwymo neu'n ymddangos eu bod yn gwneud hynny**

- **Comply with rules on expenses**
- **Not accept gifts or hospitality that obligates you or appear to do so**

# BUDDIANNAU PERSONOL
# PERSONAL INTERESTS

"Mae'n rhaid i'r cyhoedd deimlo'n hyderus bod Cynghorwyr yn gweithredu er budd y cyhoedd, nid er eu budd eu hunain, neu er budd eu teulu a'u ffrindiau."

(Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru)

"The public must have confidence that Councillors are acting in the public's best interests, not their own, or those of their family and friends."

(Public Services Ombudsman for Wales)

# BUDDIANNAU PERSONOL
# PERSONAL INTERESTS

- Mae'r Côd yn rhestru nifer o sefyllfaoedd lle y mae buddiant personol yn codi
- Os oes gennych fuddiant personol mewn unrhyw fater sy'n berthnasol i'r Cyngor, mae'n rhaid ichi ddatgan y buddiant hwnnw
- Os yw'r buddiant hwnnw hefyd yn rhagfarnol ni allwch gymryd rhan neu bleidleisio.
- Yn ddelfrydol, dylai POB agenda gynnwys eitem sefydlog ynghylch datgan buddiannau gan fod hyn yn helpu i atgoffa'r aelodau i roi ystyriaeth ddifrifol i'r mater

- The Code lists a number of situations where a personal interest arises.
- If you have a personal interest in any council business you must declare that interest
- If that interest is also prejudicial you cannot participate or vote.
- ALL agendas should ideally contain a standing item on declarations of interest as this helps remind members to give serious thought to this issue

# BETH YW BUDDIANT PERSONOL?
# WHAT IS A PERSONAL INTEREST?

Os yw mater yn ymwneud â, neu'n debygol o effeithio ar:

1. Eich cyflogaeth neu'ch busnes
2. Eich cyflogwr neu fusnes yr ydych yn bartner neu'n gyfarwyddwr ynddo
3. Unrhyw un (heblaw'r cyngor) sy'n cyfrannu at eich treuliau o ran etholiadau neu dreuliau aelodau

Neu...

Where a matter relates to or is likely to affect;

1. Your employment or business
2. Your employer or a business in which you are a partner or director
3. Anyone (other than your council) who contributes to your election or members expenses

Or....

# BETH YW BUDDIANT PERSONOL?
# WHAT IS A PERSONAL INTEREST?

Parhad..

4. Cwmni sydd â lle busnes neu dir yn eich ardal y mae gennych 1% o gyfranddaliadau ynddo (neu gyfranddaliadau gwerth mwy na £25k)

5. Contract am nwyddau/gwasanaethau/gwaith rhwng eich cyngor a busnes yr ydych yn gyfranddaliwr neu'n gyfarwyddwr ynddo

Neu……

Contd..

4. A company with a place of business/land in your area in which you hold 1% of shares (or shares worth more than £25k)

5. A contract for goods/services/works between your council and a business in which you are a director or a shareholder

Or……

# BETH YW BUDDIANT PERSONOL?
# WHAT IS A PERSONAL INTEREST?

**Parhad…**

**6. Tir yr ydych yn berchen arno (neu'n berchen yn rhannol arno) yn yr ardal**

**7. Tir lle mae eich Cyngor yn landlord ac rydych chi neu eich busnes yn denant (yn cynnwys os ydych yn gyfarwyddwr neu'n gyfranddaliwr)**

**8. Unrhyw dir yn yr ardal lle mae gennych drwydded alwedigaethol.**

**Neu...**

**Contd…**

**6. Land that you own (include part own) in the area**

**7. Land where your Council is the landlord and you or your business is a tenant (includes where you are a director or shareholder)**

**8. Any land in the area where you hold an occupational licence.**

**Or….**

# BETH YW BUDDIANT PERSONOL?
# WHAT IS A PERSONAL INTEREST?

**Parhad…**

**9. Lle rydych yn aelod neu lle mae gennych rôl rheoli yn y mathau canlynol o sefydliadau:**

**(a) Awdurdod cyhoeddus/corff sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus**

**(b) Cwmni, cymdeithas neu elusen**

**(c) Corff sy'n bod er mwyn dylanwadu ar farn gyhoeddus**

**Neu….**

**Contd…**

**9. Where you are a member of or have a management role in the following types of organisation;**

**(a) Public authority/body exercising public functions**

**(b) Company, society or charity**

**(c) Body which exists to influence public opinion**

**Or….**

# BETH YW BUDDIANT PERSONOL?
# WHAT IS A PERSONAL INTEREST ?

**9. Parhad…**

**(d) Undeb Llafur neu gymdeithas broffesiynol**

**(e) Clwb, cymdeithas neu fudiad preifat sy'n gweithredu yn yr ardal**

**Neu…..**

**9. Contd…**

**(d)Trade union or professional association**

**(e)Private club, society or association operating in the area**

**Or…..**

# BETH YW BUDDIANT PERSONOL?
# WHAT IS A PERSONAL INTEREST?

Os ystyrir yn rhesymol bod y mater yn effeithio ar:

1. Eich llesiant neu'ch sefyllfa ariannol
2. Llesiant neu sefyllfa ariannol person sy'n byw gyda chi
3. Llesiant neu sefyllfa ariannol cyfaill agos personol

Neu…

Where the matter might reasonably be regarded as affecting;

1. Your well-being or financial position
2. The well-being or financial position of a person you live with
3. The well-being or financial position of a close personal associate

Or…

# BETH YW BUDDIANT PERSONOL?
# WHAT IS A PERSONAL INTEREST?

Parhad…

4. Unrhyw gyflogaeth neu fusnes sydd gennych chi, person sy'n byw gyda chi, neu gyfaill agos personol i chi.

5.  Unrhyw berson sy'n cyflogi person sy'n byw gyda chi neu gyfaill agos personol neu unrhyw fusnes y maent yn bartner neu'n gyfarwyddwr ynddo.

Neu...

Contd…

4. Any employment or business carried on by you, a person living with you, or a close personal associate of yours.

5. Any person who employs a person living with you or a close personal associate or any business in which they are a partner or director.

Or….

# BETH YW BUDDIANT PERSONOL?
# WHAT IS A PERSONAL INTEREST?

**Parhad…**

**6. Unrhyw awdurdod cyhoeddus, cwmni, cymdeithas, elusen, undeb llafur, cymdeithas broffesiynol, clwb neu gymdeithas breifat lle y mae person sy'n byw gyda chi/cyfaill agos personol yn aelod neu'n dal swydd reoli.**

**Neu...**

**Contd…**

**6. Any public authority, company, society, charity, trade union, professional association, private club, or association in which a person living with you/close personal associate is a member or has a position of control or management.**

**Or….**

# BETH YW BUDDIANT PERSONOL?
# WHAT IS A PERSONAL INTEREST?

Parhad…

7. Unrhyw gwmni lle mae person sy'n byw gyda chi/cyfaill agos personol yn berchen ar gyfranddaliadau gwerth mwy na £5,000.

**OS OES GENNYCH FUDDIANT PERSONOL, MAE'N RHAID I CHI EI DDATGAN.**

Contd…

7. Any company in which a person living with you/close personal associate owns shares worth more than £5,000.

**IF YOU HAVE A PERSONAL INTEREST THEN YOU MUST DECLARE IT.**

# BUDDIANNAU RHAGFARNOL
# PREJUDICIAL INTERESTS

**Os oes gennych <u>Fuddiant Personol</u> mae'n RHAID i chi wirio ai buddiant rhagfarnol ydyw hefyd.**

**<u>COFIWCH</u>**

**Nid cwestiwn ydyw o ran a ydych yn credu bod y buddiant yn dylanwadu arnoch, ond a ydych yn credu y byddai aelod tybiedig o'r cyhoedd yn credu ei fod yn dylanwadu arnoch.**

**If you have a <u>Personal interest</u> you MUST check whether that interest is also prejudicial.**

**<u>REMEMBER</u>**

**The test is not whether you think the interest influences you, but whether you think a hypothetical member of the public would think it does.**

## BUDDIANNAU RHAGFARNOL
## PREJUDICAL INTERESTS

Os oes gennych Fuddiant Rhagfarnol mae'n <u>RHAID</u> i chi wneud y canlynol:

1. Datgelu'r buddiant hwnnw
2. Peidio â cheisio dylanwadu ar unrhyw benderfyniad
3. Gadael y cyfarfod tra bod y mater hwnnw yn cael ei drafod
4. <u>Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi adael yr ystafell!!</u>

If you have a Prejudicial interest you <u>MUST</u>;

1. Disclose that interest
2. Not try to influence any decision
3. Withdraw from the meeting whilst that business is dealt with
4. <u>This means you must leave the room !!</u>

# BUDDIANNAU EITHRIEDIG
# EXEMPTED INTERESTS

**Mae'r Côd yn rhestru rhai buddiannau personol NAD ydynt yn rhagfarnol, sef:**

1. **Lle bo'r mater yn ymwneud ag awdurdod arall yr ydych yn aelod ohono**
2. **Lle bo'r mater yn ymwneud ag awdurdod cyhoeddus arall y mae gennych swydd reoli ynddo**

**Neu….**

**The Code lists certain personal interests which are NOT prejudicial, namely;**

1. **Where the business relates to another authority of which you are a member**
2. **Where the business relates to another public authority in which you have a position of control or management**

**Or….**

# BUDDIANNAU EITHRIEDIG
# EXEMPTED INTERESTS

Parhad..

3. Lle bo'r mater yn ymwneud â chorff y cawsoch eich penodi gan eich Cyngor iddo

4. Eich rôl fel llywodraethwr ysgol (lle NA chawsoch eich penodi gan eich Cyngor) ONI BAI bod y mater yn ymwneud yn benodol â'r ysgol honno

Neu…..

Contd..

3. Where the business relates to a body to which you have been appointed by your Council

4. Your role as a school governor (where NOT appointed by your Council) UNLESS the business specifically relates to that school

Or…..

# BUDDIANNAU EITHRIEDIG
# EXEMPTED INTERESTS

Parhad…

5. Eich rôl ar y Bwrdd Iechyd Lleol lle NA chawsoch eich penodi gan eich Cyngor

6. Yng nghyswllt grant/benthyciad ac ati a roddwyd gan eich Cyngor i fudiadau cymunedol neu wirfoddol hyd at uchafswm o £500.

Contd…

5. Your role on the LHB when NOT appointed by your Council

6. In relation to a grant/loan etc by your Council to a community or voluntary organisation up to a maximum of £500.

# GOLLYNGIADAU
# DISPENSATIONS

# GOLLYNGIADAU
# DISPENSATIONS

- **Gall Cynghorydd â buddiant rhagfarnol wneud cais i'r Pwyllgor Safonau am ganiatâd i gael ei gynnwys mewn trafodaeth ar fater.**
- **Mae'n rhaid cyflwyno ceisiadau mewn da bryd er mwyn cynnal cyfarfod yn unol â'r rheolau ynghylch cyhoeddi agendâu ac ati.**

- **A Cllr with a prejudicial interest may apply to the Standards Committee for permission to be involved in a matter**
- **Applications must be submitted in sufficient time for a meeting to be called in accordance with rules on publishing agendas etc.**

# GOLLYNGIADAU
# DISPENSATIONS

- Mae'n rhaid cyflwyno ceisiadau ar ffurflen safonol
- Gallant gael eu cyflwyno gan glerc ar ran 1 neu ragor o gynghorwyr.
- Mae'n rhaid bod y ceisiadau yn seiliedig ar un neu ragor o'r rhesymau canlynol:

- Applications must be submitted on a standard form
- They may be submitted by a clerk on behalf of 1 or more cllrs.
- They must be based on one or more of the following grounds;

# GOLLYNGIADAU
# DISPENSATIONS

- Mae o leiaf ½ o'r cyd-gynghorwyr yn rhannu'r un buddiant
- Mae natur y buddiant yn golygu na fyddai'n niweidiol i'r hyder sydd gan y cyhoedd
- Mae gan y Cynghorydd arbenigedd penodol sy'n cyfiawnhau ei gyfranogiad parhaus
- Mae'r buddiant yn gyffredin i gyfran sylweddol o'r cyhoedd

- At least ½ of fellow cllrs share the same interest
- The nature of the interest is such that it would not damage public confidence
- The Cllr has a particular expertise which justifies their contd. involvement
- The interest is common to a significant proportion of the public

# GOLLYNGIADAU
# DISPENSATIONS

- **Mae'r mater yn ymwneud â sefydliad gwirfoddol ac mae'r Cynghorydd yn ymwneud â rôl reoli yn y sefydliad hwnnw ac nid oes ganddo unrhyw fuddiant arall yn y mater *(gall siarad yn unig, ni all bleidleisio dan yr opsiwn hwn)***
- **Fel sy'n briodol fel arall o dan yr holl amgylchiadau**
- ***(Mae rhesymau eraill ond nid ydynt yn berthnasol i Gynghorwyr Cymuned)***

- **The matter relates to a vol. organisation & the Cllr is involved in its management & has no other interest in the matter *(can only speak , not vote under this option)***
- **Otherwise appropriate in all the circumstances**
- ***(There are other grounds available but they do not apply to Community Cllrs)***

# GOLLYNGIADAU
# DISPENSATIONS

Rhoddir gollyngiadau fel arfer am gyfnod penodedig

Mae gollyngiadau yn fwyaf tebygol o gael eu rhoi pan fo buddiant cynghorydd yn ymwneud â'i gysylltiad â sefydliad gwirfoddol.

Mae gollyngiadau yn llai tebygol o gael eu rhoi pan fo'r buddiant yn ymwneud â buddiannau eiddo neu fusnes personol cynghorydd

Dispensations are usually granted for a set period of time

Dispensations are most likely to be granted where a councillors interest relates to involvement in a voluntary organisation.

Dispensations are less likely to be granted where they relate to a cllr's personal business or property interests

# GOLLYNGIADAU
# DISPENSATIONS

Mae'r mwyafrif llethol o geisiadau am ollyngiadau yn cael eu caniatáu, o leiaf i siarad a gwneud sylwadau ysgrifenedig. Mae gollyngiadau i bleidleisio yn brin

Dylai ceisiadau roi cymaint o wybodaeth â phosibl am fuddiant y Cynghorydd

The vast majority of dispensation applications are granted, at least to speak and make written representations. Dispensations to vote are rare

Applications should give as much information as possible about the interest that the Cllr has

# GORFODAETH
# ENFORCEMENT



- **Ombwdsmon Newydd Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Michelle Morris.**
- **Penodwyd o 1 Ebrill 2022**
- **New Public Services Ombudsman for Wales – Michelle Morris.**
- **Appointed from 1st April 2022**

# GORFODAETH
# ENFORCEMENT

- **Dylai pob cwyn ynghylch torri'r côd gael ei chyfeirio at yr Ombwdsmon a fydd yn penderfynu p'un ai i ymchwilio ai peidio.**
- **Nid oes gan y Cyngor Sir unrhyw bŵer i ymyrryd**
- **Os yw'r Ombwdsmon yn penderfynu bod yr achos yn gofyn am ymchwiliad, gall gyfeirio'r achos at y Swyddog Monitro lleol i wneud hynny**

- **All complaints regarding breaches of the code should be referred to the Ombudsman who will decide whether or not to investigate.**
- **The County Council has no power to intervene**
- **If the Ombudsman decides the case merits investigation, they may refer the case to the local Monitoring Officer to do so**

# GORFODAETH
# ENFORCEMENT

- Os yw ymchwiliad yn datgelu tystiolaeth o dorri rheolau, gellir cyfeirio'r achos at y Pwyllgor Safonau lleol neu Banel Dyfarnu Cymru i benderfynu arno
- Gall y Pwyllgor Safonau atal Cynghorydd o'i swydd
- Gall y Panel Dyfarnu wahardd Cynghorydd o'i swydd
- Gall y ddau osod sancsiynau llai llym

- If an investigation finds evidence of a breach it may be referred to the local Standards Committee or the Adjudication Panel for Wales for determination.
- The Standards Committee can suspend a Cllr from office
- The Adjudication Panel can disqualify a Cllr from office
- Both can impose lesser sanctions

# ACHOSION DIWEDDAR GERBRON Y PANEL DYFARNU
# RECENT ADJUDICATION PANEL CASES

| | |
|---|---|
| **Y Cynghorydd Steve Davies** | **Cllr. Steve Davies** |
| **Y Cynghorydd Karen Laurie-Parry** | **Cllr. Karen Laurie-Parry** |
| **Y Cynghorydd Donald Jenkins** | **Cllr. Donald Jenkins** |
| **Y Cynghorydd Chris Evans** | **Cllr. Chris Evans** |

## DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021
## LOCAL GOVERNMENT AND ELECTIONS (WALES) ACT 2021

- Adran 67 – dyletswydd ar Gynghorau Tref a Chymuned i gyhoeddi cynlluniau hyfforddi ar gyfer eu haelodau a’u staff
- Rhaid i'r cynllun hyfforddi cyntaf fod yn barod ac wedi'i gyhoeddi erbyn 5 Tachwedd 2022,

- Section 67 – duty on Town and Community Councils to publish training plans for its members and staff
- The first training plan must be ready and published by 5 November 2022,

# DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021
# LOCAL GOVERNMENT AND ELECTIONS (WALES) ACT 2021

Mae yna feysydd lle dylai pob cyngor sicrhau bod ganddynt ddigon o sgiliau a dealltwriaeth. Y rhain yw:

1. Y rhaglen ymsefydlu gyffredinol i gynghorwyr
2. Y Côd Ymddygiad ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru.
3. Rheoli a llywodraethu ariannol.

There are areas which all councils should ensure that they have sufficient skills and understanding. These are:

1. Basic induction for councillors
2. The Code of Conduct for members of local authorities in Wales.
3. Financial management and governance.

# DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021
# LOCAL GOVERNMENT AND ELECTIONS (WALES) ACT 2021

- Dylai'r cynllun hyfforddi adlewyrchu anghenion hyfforddi'r cyngor a'i gynllun ar gyfer mynd i'r afael â'r anghenion hynny.
- Rhaid i'r cynllun gael ei gymeradwyo gan y cyngor llawn cyn ei gyhoeddi.

The training plan should reflect the training needs of the council and its plan for addressing those needs.

The plan must be approved by the full council prior to publication.

# DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021
# LOCAL GOVERNMENT AND ELECTIONS (WALES) ACT 2021

Dylai'r cynllun fod o leiaf yn darparu gwybodaeth am:

1. Y math o hyfforddiant,
2. Y niferoedd sy'n cymryd rhan
3. Yr amserlen ar gyfer cwblhau'r hyfforddiant; a
4. Chost gyffredinol yr hyfforddiant

The plan should provide, as a minimum, information about:

1. The type of training,
2. Numbers participating
3. The timeframe over which the training is to be completed; and
4. The overall cost of the training

# DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021
# LOCAL GOVERNMENT AND ELECTIONS (WALES) ACT 2021

O dan adran 67(4) o Ddeddf 2021 mae dyletswydd ar gynghorau i adolygu eu cynllun hyfforddi.

Fel gofyniad lleiafswm byddai hyn yn digwydd o leiaf adeg pob etholiad cyffredin ar gyfer cynghorwyr cymuned.

Rhaid paratoi cynlluniau newydd o fewn tri mis i etholiad cyffredin ar gyfer cynghorwyr cymuned

Under section 67(4) of the 2021 Act there is duty on councils to review their training plan.

As a minimum this would be at least at every ordinary election of community councillors.

New Plans must be prepared within three months of an ordinary election of community councillors

# DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021
# LOCAL GOVERNMENT AND ELECTIONS (WALES) ACT 2021

Yn ymarferol, mae'n debygol y bydd angen diwygio'r cynllun yn amlach,

e.e. yn dilyn is-etholiad cyngor neu pan fydd cynghorydd cyfetholedig newydd yn ymuno; newidiadau staff; neu pan ysgwyddir cyfrifoldebau newydd megis gwasanaethau neu asedau newydd.

In practice, the plan is likely to require revising more frequently,

e.g., following a council by-election or a new co-opted councillor joining; staff changes; or taking on new responsibilities such as new services or assets.

# DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021
# LOCAL GOVERNMENT AND ELECTIONS (WALES) ACT 2021

- Atodlen 8 - Rhoi'r un pwerau i'r Ombwdsmon â barnwr yr Uchel Lys o ran mynnu bod person yn darparu gwybodaeth/dogfennau
- Gall Ombwdsmon fynnu bod Cyngor yn darparu unrhyw gyfleuster y mae'n rhesymol iddo ofyn amdano

- Schedule 8 - Gives the Ombudsman the same powers as a High Court judge to require a person to provide information/documents
- Ombudsman can require a Council to provide any facility he reasonably requires

# BLE GALLWCH GAEL CYNGOR
# WHERE TO SEEK ADVICE

**Clercod**

**Gallwch ofyn am gyngor y Swyddog Monitro ynghylch y Côd**

**Cynghorwyr**

**Mae'r Ombwdsmon yn nodi'n glir y dylai Cynghorwyr ofyn am gyngor gan y Clercod ynghylch materion Côd a dim ond gofyn i'r Swyddog Monitro os nad yw'r Clerc ar gael**

**Os yw’r Swyddog Monitro yn rhoi cyngor ar y côd yn uniongyrchol i Gynghorydd, bydd y cyngor hwnnw'n cael ei rannu â'r clerc perthnasol**

**Clerks**

**May seek advice from the Monitoring Officer in relation to the Code**

**Councillors**

**The Ombudsman makes it clear that Councillors should seek advice from their Clerks on Code issues and only approach the Monitoring Officer if the clerk is unavailable**

**If the Monitoring officer does provide code advice directly to a Cllr that advice will be shared with the relevant clerk**

## CASGLIAD
## CONCLUSION

- **Cymerwch amser i ymgyfarwyddo â'r côd a Chanllawiau'r Ombwdsmon**
- **Sicrhewch fod y rhain gennych bob amser wrth gyflawni gwaith y cyngor**
- **Defnyddiwch ollyngiadau i gyflawni eich rôl ddemocrataidd**
- **Os nad ydych yn siŵr - MYNNWCH GYNGOR**

- **Take time to familiarise yourself with the code and the Ombudsman's Guidance**
- **Always have them with you when conducting council business**
- **Make use of dispensations to fulfil your democratic role**
- **If unsure – SEEK ADVICE**

# CWESTIYNAU
# QUESTIONS

